# Ecoleg a Sŵn

Renantis

## Ecoleg

**Nid yw'r fferm solar arfaethedig yn gorwedd o fewn nac yn gyfagos i unrhyw safleoedd amgylcheddol dynodedig statudol. Y safleoedd dynodedig agosaf yw Gwarchodfa Natur Leol Craig-yr-Hesg (coetir), a leolir tua 1.46km i'r gogledd-orllewin a SoDdGA Coetir Nant Gelliwion, a leolir tua 2.86km i'r gorllewin.**

Mae'r rhan fwyaf o'r safle yn dir ffermio bugeiliol (glaswelltir wedi'i wella'n helaeth wedi'i bori'n helaeth) o werth ecolegol isel yn gyffredinol, gyda nifer o ardaloedd o laswelltir gwael wedi'i ledwella a heb ei bori yn bresennol tua gogledd a dwyrain y Safle.

Mae arolygon amrywiol wedi cael eu cynnal hyd yn hyn gan gynnwys arolwg cynefinoedd cam 1 estynedig, Adar sy'n Nythu a Madfall Ddŵr Gribog (GCN). Ymhlith y rhywogaethau eraill a ystyriwyd hyd yma mae ystlumod, mochyn daear (dim cofnodion o fewn 2km), dyfrgwn (dim cynefin addas ar y safle), llygoden bengron y dŵr (dim arwyddion ar y safle) amffibiaid ac ymlusgiaid. Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar unrhyw rywogaethau na chynefinoedd yn cael eu rhag-weld.

Bydd mesurau gwella cynefinoedd yn cael eu cynhyrchu ac yn cael eu gweithredu yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu ar bob cam o'r Datblygiad Arfaethedig. Bydd hyn yn golygu creu cynefinoedd newydd sy'n cynnig bwyd a lloches i fywyd gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau â blaenoriaeth ac adar sy'n bridio. Rhagwelir y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at gynnydd net i fioamrywiaeth.

## Sŵn

**Nid yw paneli solar eu hunain yn cynhyrchu sŵn.**

Y brif ffynhonnell sŵn sy'n gysylltiedig â fferm solar fydd y gorsafoedd gwrthdröydd, mae'r rhain wedi'u lleoli'n fewnol o fewn y cynllun i gyflawni'r pellter gwahanu mwyaf posibl o Dderbynyddion Sensitif Sŵn (DSS) ac felly ni fydd unrhyw effeithiau sŵn sylweddol.

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Sŵn (AES) yn cael ei lunio a'i gyflwyno gyda'r cais cynllunio i gadarnhau na fydd unrhyw ormodedd o derfynau sŵn derbyniol.

